# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 257(v5)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

**Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru yn eu cymryd i amddiffyn y cyhoedd rhag coronafeirws? (TAQ387)

**Leanne Wood (Rhondda):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ateb y galw am wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn y Rhondda a thu hwnt os caiff gwasanaethau 24 awr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg eu gostwng? (TAQ386)

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i addasu enw a chylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(5 munud)

**NDM7242** Elin Jones (Ceredigion)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i newid enw a chylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i'r canlynol:

a) Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad;

b) i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac i ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â deddfwriaeth, cyfiawnder a'r cyfansoddiad sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd y ddeddfwriaeth.

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

## Cynnig I Ethol Aelod I Gomisiwn Y Cynulliad (5 munud)

**NDM7261** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.9, yn penodi Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ymadawiad a'r Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM7241** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.

2. Yn credu y dylid rhoi canlyniad refferenda ar waith bob amser.

3. Yn cydnabod y bydd Cymru, ynghyd â gweddill y Deyrnas Unedig, yn gadael yr Undeb Ewropeaidd am 23.00 ar 31 Ionawr 2020.

4. Yn cydnabod y manteision posibl i Gymru yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys:

a) llunio cytundebau masnach rydd newydd;

b) creu system fewnfudo decach nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ar y sail o ble y gallant ddod;

c) sefydlu dull newydd o ymdrin â buddsoddi rhanbarthol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth y DU wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – [Rebecca Evans (Gwyr)]**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 ac y bydd Cymru, ynghyd â gweddill y Deyrnas Unedig, yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd am 23.00 ar 31 Ionawr 2020.

2. Yn cydnabod bod buddion yn ogystal â heriau yn codi o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

3. Yn credu y gall yr heriau gynnwys bygythiad sylweddol i ddyfodol y Deyrnas Unedig ei hun; bod felly angen diwygio'r cyfansoddiad yn sylweddol i ymwreiddio datganoli yn llwyr; ac y gallai negodi Cytundebau Masnach Rydd â'r UE a gwledydd eraill, heb gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn ystyrlon, fod yn risg o ran tanseilio'r setliad datganoli; ac yn gresynu na chydnabuwyd hyn gan Lywodraeth y DU wrth basio Deddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) yn Senedd y DU.

4. Yn cefnogi'r cynllun 20 pwynt a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 'Diwygio ein Hundeb' a fydd yn sicrhau bod datganoli yn dod yn rhan sefydledig o'r cyfansoddiad unwaith y mae'r DU yn ymadael â'r UE.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth y DU ac i godi llais dros fuddiannau Cymru wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Deddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael)

Diwygio ein Hundeb

## 7 Dadl Plaid Cymru - Perfformiad y GIG

(60 munud)

**NDM7244** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r ystadegau perfformiad diweddaraf ar gyfer y GIG ac yn gresynu at y methiant parhaus i gyrraedd targedau perfformiad ar draws amrywiaeth o arbenigeddau a gwasanaethau.

2. Yn gresynu at ganslo llawdriniaethau a oedd wedi'u cynllunio er mwyn ymdrin â phwysau'r gaeaf ac yn credu ei bod yn bosibl cynllunio ar gyfer ymdrin â phwysau'r gaeaf a sicrhau bod llawdriniaethau a oedd wedi'u cynllunio yn parhau.

3. Yn credu y dylid llongyfarch staff y GIG a gofal cymdeithasol am eu perfformiad o dan amgylchiadau anodd.

4. Yn credu y gellir cynnal gwelliannau yn y GIG yn y tymor hir dim ond:

a) os caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol yr un parch â'r GIG, ac yn gresynu nad yw gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u hariannu'n ddigonol ar draul y GIG;

b) os ceir buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau sy'n atal salwch;

c) os ceir gwelliannau i amodau gwaith a chynllunio'r gweithlu er mwyn gwella'r broses o recriwtio a chadw staff y GIG a gofal cymdeithasol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod rhai o fyrddau iechyd Cymru yn gohirio recriwtio oherwydd pwysau ariannol sy'n gwaethygu perfformiad gwael a phwysau ar staff rheng flaen.

**Gwelliant 2 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod effaith degawd o gyni annheg o gyfeiriad y DU ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn credu mai dim ond trwy'r dulliau canlynol y gellir cynnal gwelliannau yn y GIG yn y tymor hir:

a) os bydd y GIG a gofal cymdeithasol yn cydweithio fel partneriaid cyfartal;

b) os bydd buddsoddi yn parhau ar draws y ddwy system i helpu pobl i gadw'n iach ac allan o'r ysbyty;

c) drwy barhau â'r ffocws ar recriwtio a chadw ein gweithlu iechyd a gofal, ynghyd â'u llesiant, gyda chymorth y strategaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 4 (a) dileu ', ac yn gresynu nad yw gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u hariannu'n ddigonol ar draul y GIG'.

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'os caiff y rhwystrau artiffisial rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol eu dileu.'

**Gwelliant 5 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyfleoedd i fuddsoddi adnoddau ychwanegol yn y GIG yng Nghymru a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn hybu perfformiad o ganlyniad i gynnydd mewn termau real yn grant bloc Cymru.

## 8 Dadl y Blaid Brexit – Pysgodfeydd

(60 munud)

**NDM7243** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol pysgodfeydd i Gymru.

2. Yn croesawu'r ffaith y bydd y Deyrnas Unedig, ar ôl blynyddoedd o ddiffyg gweithredu, yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ddiwedd yr wythnos hon.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau'r manteision gorau i Gymru o ran pysgodfeydd Cymru wrth i ni gwblhau'r broses Brexit.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol pysgodfeydd i ddiwydiannau, amgylchedd a chymunedau arfordirol Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn diogelu dyfodol pysgodfeydd Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3** – Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod pwysigrwydd sylweddol yr Undeb Ewropeaidd fel cyrchfan ar gyfer cynnyrch bwyd môr Cymru ac yn ceisio sicrhau bod y farchnad hon yn parhau i fod ar agor ac yn hawdd cael gafael arni yn y dyfodol.

Yn galw ar fil pysgodfeydd arfaethedig Llywodraeth y DU i sicrhau bod deddfwriaeth y DU ac unrhyw ddeddfwriaeth ddatganoledig yn darparu rheolaeth

pysgodfeydd sy'n wirioneddol gynaliadwy ac atebol ac sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd morol ac yn cefnogi cymunedau sy'n ddibynnol ar yr arfordir.

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y byddwn, ar ôl gadael yr UE, yn gadael y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac yn dod yn wladwriaeth arfordirol annibynnol, gan gymryd rheolaeth yn ôl dros ein dyfroedd ym mis Rhagfyr 2020.

**Gwelliant 5 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i: cynyddu'r cyllid ar gyfer pysgodfeydd ledled gwledydd y DU drwy'r senedd bresennol, a chefnogi'r broses o adfywio ein cymunedau arfordirol.

**Gwelliant 6 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth bysgota newydd a fyddai'n seiliedig ar yr egwyddor o 'gynnyrch cynaliadwy mwyaf', ac a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru gynnal cynaliadwyedd pysgod ar gyfer pob stoc.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

**NDM7245 Rhianon Passmore (Islwyn)**

Cymru a'r economi ddiwylliannol: manteision economaidd y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau mewn Cymru greadigol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22/01/2020 i'w hateb ar 29/01/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OAQ54981

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

2 OAQ54997

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu ei pholisi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn trefi a dinasoedd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

3 OAQ54980

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn yr adolygiad brys o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 a gomisiynwyd ym mis Hydref 2019?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

4 OAQ54992

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bwriad i gyflwyno parthau perygl nitradau yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

5 OAQ54979

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at weithredu Deddf Lucy i reoleiddio ffermio cŵn bach yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

6 OAQ54990

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fonitro ansawdd aer yn y Gogledd?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ55004

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau safonau lles uchel mewn sefydliadau bridio yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ55003

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen ddileu TB Llywodraeth Cymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

9 OAQ54994

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddyfodol cynhyrchu ynni niwclear yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

10 OAQ54987

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynhyrchu trydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy yng nghanolbarth Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

11 OAQ55012

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosolwg Llywodraeth Cymru o Gyfoeth Naturiol Cymru?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OAQ54982

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch gweithrediadau Swyddfa'r Post yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OAQ54991

**(w)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r berthynas rhwng rhagamcanion poblogaeth a chynlluniau datblygu lleol?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

3 OAQ55010

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sydd ar gael i lywodraeth leol i atal cofrestru ail gartrefi fel busnesau?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OAQ55005

**(w)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith canran uchel o ail gartrefi ar yr angen am dai o fewn cymunedau?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OAQ54986

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phlastigau untro?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

6 OAQ54999

**(e)**

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o sut y mae strategaeth dai Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio a wneir gan awdurdodau lleol?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ55011

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch sut y gallent weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

8 OAQ54996

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

9 OAQ55001

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu tai fforddiadwy yng Nghanol De Cymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**10** OAQ55006

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelwch tân a nodwyd yn y cyfadeilad o fflatiau Celestia ym Mae Caerdydd?